OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 1143 (Cy.137)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2012

Gwnaed - - - - *21 Ebrill 2012*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - *25 Ebrill 2012*
Yn dod i rym - - *21 Mai 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 15(7)(b) a 50(2)(a) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009(**1**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2012 a daw i rym ar 21 Mai 2012.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "y Mesur" ("*the Measure*") yw Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Pennu dyddiad cyhoeddi

2.—(1) Mewn cysylltiad â'r wybodaeth a ddisgrifir ym mharagraff (2), mae'r dyddiad canlynol wedi ei bennu at ddibenion adran 15(7)(b) o'r Mesur, sef 31 Rhagfyr cyn y flwyddyn ariannol y mae'r cynllun gwella yn ymwneud â hi.

(2) Mae'r wybodaeth a ddisgrifir yn y paragraff hwn yn wybodaeth sydd i'w chyhoeddi gan awdurdod tân ac achub o dan adran 15(6) o'r Mesur (cyhoeddi disgrifiad o'i gynllun gwella) ar gyfer blwyddyn ariannol sy'n cychwyn ar 1 Ebrill 2013 neu ar ôl hynny.

Dirymu

3. Mae Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2010(**2**) wedi ei ddirymu.

(**1**) 2009 mccc 2.
(**2**) O.S. 2010/481 (Cy.50).